# Eisteddfod Gadeiriol
# PENRHYN-COCH

**(sefydlwyd 1964)**

## Nos Wener a Dydd Sadwrn 19 a 20 Ebrill 2024

## Neuadd y Penrhyn
**(SY23 3EH)**

### I DDECHRAU:
**Nos Wener** 4 o'r gloch (Gweler amod 17)

**Prynhawn Sadwrn** 1 o'r gloch yn brydlon **Nos Sadwrn** 6:00 o'r gloch

### LLYWYDDION
Nos Wener: Sion Hurford

Prynhawn Sadwrn: Meirion Roberts

Nos Sadwrn: Eirwen Hughes

### BEIRNIAID
NOS WENER: Cerdd: Beca Fflur Williams, Rhydyfelin

Llefaru: Elliw Dafydd, Silian

DYDD SADWRN: Cerdd a Thlws yr Ifanc: Trystan Lewis, Llanfair Talhaearn

Llefaru a Llên: Ivoreen Williams, Saron, Rhydaman

### CYFEILYDD
Lona Phillips, Abermagwr

### ARWEINYDDION
Catryn Lawrence, Llifon Ellis, Manon Evans, Sara Gibson,
Sara James, Lowri Jones, Greg Vearey-Roberts

### PRIS MYNEDIAD
NOS WENER: £1

P'NAWN SADWRN: £3, Plant Ysgol £1 NOS SADWRN: £4, Plant Ysgol £1

AELOD O GYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

# SWYDDOGION Y PWYLLGOR:

**Cadeirydd:** ***Marianne Jones Powell, Llandre*** **Is-Gadeirydd:** ***Sara Gibson, Penrhyn-coch***

**Trysoryddion:** ***Eleri James ac Elin Haf Williams, Penrhyn-coch***

**Ysgrifennydd:** ***Ceris Gruffudd, Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, SY23 3HE 01970 828017 ceris.gruffudd@gmail.com***

**Is Ysgrifennydd:** ***Llio Adams, Glyn Helyg, Penrhyn-coch***

**http://www.trefeurig.cymru/mudiadau/eisteddfod-gadeiriol-penrhyn-coch/**

**@eistpenrhyncoch #eisteddfodpenrhyn2024**

# AMODAU:

1. **Teilyngdod.**
2. **Ni chaniateir gwrthdystiad cyhoeddus.**
3. **Mae nos Wener (ar wahân i Gystadleuaeth Tlws yr Ifanc) yn gyfyngedig i blant sy'n byw yn y plwyf a rhai sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin ac Ysgolion Trefeurig a Phenrhyn-coch a Phen-llwyn ond yn byw y tu allan i'r plwyfi, a hefyd i gyn-ddisgyblion yr Ysgolion.**
4. **Cystadleuwyr i ofalu am gopïau i'r Beirniad a'r Cyfeilydd.**
5. **Cystadleuwyr ar rifau 8 a 9 (Gwener) a 9, 10, 14, 15, 16 a 18 (lle bod angen cyfeilydd) ar y Sadwrn i anfon copïau i'r Cyfeilydd cyn 15 Ebrill 2024.**
6. **Y cyfansoddiadau Llenyddol a Thlws yr Ifanc i fod yn llaw'r Ysgrifennydd ar bapur neu yn electronig cyn 2 Ebrill 2024. Rhaid i bob ymgais unigol fod o dan ffugenw, gydag enw'r ymgeisydd, rhif ffôn a chyfeiriad ar wahân.**
7. **Disgwylir i'r Bardd buddugol fod yn bresennol ar gyfer seremoni'r Cadeirio.**
8. **Ni chaniateir i neb ennill y Gadair fwy na theirgwaith.**
9. **Rhaid i'r cyfansoddiadau a'r cystadlu fod yn y Gymraeg.**
10. **Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamwain â all ddigwydd.**
11. **Ni chaniateir i neb gystadlu ond o fewn ei oed, yr oed i gyfrif ar ddydd yr Eisteddfod.**
12. **Ni ddylid perfformio'r un darn ddwywaith.**
13. **Bydd cystadlaethau 1- 8 dydd Sadwrn yn digwydd yng nghyfarfod y prynhawn.**
14. **Dechreuir cyfarfod yr Hwyr gyda'r Unawd 18 - 30 oed.**
15. **Bydd hawl gan Bapur Bro *Y Tincer* i gyhoeddi'r gwaith llenyddol.**
16. **Mae geiriad cystadleuaeth 18 nos Sadwrn fel un Cystadleuaeth Gorawl Cymdeithas Eisteddfodau Cymru. Bydd cystadlu mewn dwy Eisteddfod leol rhwng Mai 2023 a Mai 2024 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024.**
17. **Sylwer fod yr Eisteddfod yn cychwyn am 4.00 nos Wener – os ydy hyn yn creu anhawster i unrhyw gystadleuydd cysyllter â'r Ysgrifennydd os gwelwch yn dda.**

**NOS WENER:** ***Cyfyngedig i blant Cylchoedd Meithrin ac Ysgolion Penrhyn-coch a Phen-llwyn (Gweler amod 3)***

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. Unawd i blant Cylch Meithrin (Gweler Amod 3) | £5 | £4 | £3 |
| 2. Llefaru i blant Cylch Meithrin (Gweler Amod 3) | £5 | £4 | £3 |
| 3. Unawd Ysgol Gynradd – Dosbarth Derbyn | £5 | £4 | £3 |
| 4. Unawd Blwyddyn 1 a 2 | £5 | £4 | £3 |
| 5. Unawd Blwyddyn 3 a 4 | £5 | £4 | £3 |
| 6. Unawd Blwyddyn 5 a 6 | £5 | £4 | £3 |
| 7. Unawd Offeryn Cerdd (Ysgol Gynradd) | £5 | £4 | £3 |
| 8. Unawd Ysgol Uwchradd * | £15 | £12 | £8 |
| 9. Unawd Offeryn Cerdd Ysgol Uwchradd * | £15 | £12 | £8 |

**** Gweler amod 5 ****

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10. Llefaru Ysgol Gynradd – Dosbarth Derbyn | £5 | £4 | £3 |
| 11. Llefaru Blwyddyn 1 a 2 | £5 | £4 | £3 |
| 12. Llefaru Blwyddyn 3 a 4 | £5 | £4 | £3 |
| 13. Llefaru Blwyddyn 5 a 6 | £5 | £4 | £3 |
| 14. Llefaru Ysgol Uwchradd | £15 | £12 | £8 |
| 15. Parti Canu (Plant Ysgol) | £40 | £20 | £10 |
| 16. Parti Llefaru (Plant Ysgol) | £40 | £20 | £10 |

17. Sgen Ti Dalent? dan 16 oed

*Mae'r gystadleuaeth yn agored i unigolion neu grwpiau. Ceir 4 munud i ddiddanu'r gynulleidfa drwy: ganu, dawnsio, actio, llefaru, dweud jôcs, canu offeryn cerdd, perfformio sgiliau syrcas, gwneud triciau – UNRHYW BETH a fydd yn difyrru'r gynulleidfa (Caniateir 2 funud ychwanegol i osod y llwyfan os yw'r cystadleuwyr yn dymuno props/offerynnau cerdd a.y.b.)*

£50 i'w rannu

*( Ni fydd y wobr gyntaf yn fwy na £25)*

*Y Beirniaid fydd y Beirniad Canu, Llefaru ac un o Swyddogion yr Eisteddfod.*

*Dyfernir y wobr (i'w rhannu fel mae'r Beirniaid yn dymuno) i'r perfformiadau sydd wedi eu diddanu orau.*

***Amodau:***
*Rhaid i'r perfformiad fod yn weddus i gynulleidfa deuluol.*
*Rhaid i'r perfformiad fod yn yr iaith Gymraeg neu'n ddi-iaith.*
*Ni chaniateir i gystadleuwyr berfformio darn a berfformir ganddynt mewn cystadleuaeth arall.*

***Bydd gwobr gysur i bob plentyn anfuddugol yng nghystadlaethau rhifau 1, 2, 3 a 10 (Dosbarth Derbyn)***

# DYDD SADWRN: *Agored*

## CERDD

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1. Unawd Dosbarth Derbyn ac Iau – *hunan ddewisiad* | £6 | £4 | £3 | |
| 2. Unawd Blwyddyn 1 a 2 – *hunan ddewisiad* | £6 | £4 | £3 | |
| 3. Unawd Blwyddyn 3 a 4 – *hunan ddewisiad* | £6 | £4 | £3 | |
| 4. Unawd Blwyddyn 5 a 6 – *hunan ddewisiad* | £6 | £4 | £3 | |
| 5. Unawd Ysgol Uwchradd – *hunan ddewisiad* | £15 | £12 | £8 | |
| 6. Unawd Offeryn Cerdd dan 18 oed – *hunan ddewisiad* | £15 | £12 | £8 | |
| 7. Unawd Cerdd Dant dan 18 oed – *hunan ddewisiad* | £15 | £12 | £8 | |
| 8. Unawd Alaw Werin dan 18 oed (*Digyfeiliant*) – *hunan ddewisiad* | £15 | £12 | £8 | |
| 9. Unawd 18 – 30 oed – *hunan ddewisiad* | £25 | £20 | £15 | |
| 10. Unawd Sioe Gerdd dan 30 oed – *hunan ddewisiad* | £25 | £20 | £15 | |
| 11. Unawd Emyn dros 60 oed – *hunan ddewisiad* | Cwpan a £20 | £15 | £10 | £5 |
| 12. Alaw Werin Agored (digyfeiliant )– *hunan ddewisiad* | £20 | £15 | £10 | |
| 13. Deuawd emyn – *hunan ddewisiad* | £20 | £15 | £10 | |
| 14. Unrhyw Unawd Gymraeg – *hunan ddewisiad* | £25 | £20 | £15 | |
| 15. Her Unawd - *hunan ddewisiad (i'w chanu yn **Gymraeg**)*<br>*Cwpan Parhaol er cof am Mary Thomas (Bronsaint) yn rhoddedig gan y teulu.* | Cwpan a £60 | £40 | £30 | £20 |
| 16. Parti (dan 20 mewn nifer) - *Emyn neu Alaw Werin* | £60 | £30 | £15 | |
| 17. Ensemble lleisiol - *Agored (rhwng 3 a 6 mewn nifer)*<br>*Hunan ddewisiad gyda chyfeiliant neu'n ddigyfeiliant. Geiriau Cymraeg. Perfformiad: dim mwy na 4 munud.* | £30 | £15 | | |
| 18. Côr - *unrhyw gyfuniad o leisiau heb fod yn llai nag 20 mewn nifer, i gyflwyno rhaglen o gerddoriaeth hunanddewisiad heb fod yn hwy na 10 munud ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymro. Gellid hefyd defnyddio trefniant o alaw werin Gymreig gan gyfansoddwr o Gymro.* | £150 | £100 | £70 | |

***Gweler y nodyn yn amod 16***

***Bydd seremoni'r Cadeirio tua 8 o'r gloch a'r corau i ddilyn.***

19. Sgen Ti Dalent?

*Mae'r gystadleuaeth yn agored i unigolion neu grwpiau. Ceir 4 munud i ddiddanu'r gynulleidfa drwy: ganu, dawnsio, actio, llefaru, dweud jôcs, canu offeryn cerdd, perfformio sgiliau syrcas, gwneud triciau – UNRHYW BETH a fydd yn difyrru'r gynulleidfa (Caniateir 2 funud ychwanegol i osod y llwyfan os yw'r cystadleuwyr yn dymuno props/offerynnau cerdd a.y.b.)*

£50 i'w rannu

*( Ni fydd y wobr gyntaf yn fwy na £25)*

*Y Beirniaid fydd y Beirniad Canu, Llefaru ac un o Swyddogion yr Eisteddfod.*

*Dyfernir y wobr (i'w rhannu fel mae'r Beirniaid yn dymuno) i'r perfformiadau sydd wedi eu diddanu orau.*

***Amodau:***
*Rhaid i'r perfformiad fod yn weddus i gynulleidfa deuluol.*
*Rhaid i'r perfformiad fod yn yr iaith Gymraeg neu'n ddi-iaith.*
*Ni chaniateir i gystadleuwyr berfformio darn a berfformir ganddynt mewn cystadleuaeth arall.*

# LLEFARU

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 20. Llefaru Dosbarth Derbyn ac Iau - *hunan ddewisiad* | £6 | £4 | £3 | |
| 21. Llefaru Blwyddyn 1 a 2 - *hunan ddewisiad* | £6 | £4 | £3 | |
| 22. Llefaru Blwyddyn 3 a 4 - *hunan ddewisiad* | £6 | £4 | £3 | |
| 23. Llefaru Blwyddyn 5 a 6 - *hunan ddewisiad* | £6 | £4 | £3 | |
| 24. Llefaru Ysgol Uwchradd - *hunan ddewisiad* | £15 | £12 | £8 | |
| 25. Llefaru 18 – 30 - *hunan ddewisiad* | £25 | £20 | £15 | |
| 26. Llefaru i Ddysgwyr - *hunan ddewisiad* | £15 | £12 | £8 | |
| 27. Darllen o'r Ysgrythur - *hunan ddewisiad* | £25 | £20 | £15 | |
| 28. Her Adroddiad - *hunan ddewisiad* | £60 | £40 | £30 | £20 |

29. Mewn Cymeriad - *Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru 2023-2024* — £25 £20 £15

*16-25 oed. Cyfle i unigolyn bortreadu un o gymeriadau enwog Cymru, yn seiliedig ar gyflwyniadau gwreiddiol Cwmni Mewn Cymeriad. Perfformiad hyd at 5 munud, wedi ei seilio ar ddewis o 2 sgript - Owain Glyndwr neu Cranogwen.*
*Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng Medi 2023 a diwedd Mai 2024 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024 am wobrau o £100, £60 a £40.*

***Sgriptiau ac amodau llawn ar www.steddfota.cymru***

| | | | |
|---|---|---|---|
| 30. Parti Llefaru – agored | £60 | £30 | £15 |

***Trefn Prynhawn Sadwrn 1, 20, 2, 21, 3, 22, 4, 23, 5, 24, 7, 8, 6***

***Trefn Nos Sadwrn 9, 25, 10, 29, 11, 12, 16, 27, 17, 18, 19, 26, 13, 30, 15, 28, 14***

# CYFANSODDI

**1. Y GADAIR:** Cerdd gaeth neu rydd heb fod dros 50 llinell - "Lleisiau".
*Er cof am Ifan ac Auronwy James, Cae Mawr a Cerys Webber, yn rhoddedig gan y teulu.*

**Cadair fach a £50.00**

2. **Englyn** yn cynnwys enw unrhyw lyn **£10.00**

3. **Telyneg**: Llonyddwch **£10.00**

4. **Limrig** yn cynnwys y llinell: "I'r Borth aeth Wil i ymdrochi'" **£10.00**

5. **Cerdd** yn ymwneud â Byd Natur. **£10.00**

6. **Brawddeg:** GWLEIDYDDION **£10.00**

7. **Stori Fer** – wedi ei seilio ar unrhyw ddigwyddiad mewn Ysgol Uwchradd **£10.00**

8. **Erthygl i bapur bro**: Atgofion tîm pentref (pêl-droed, rygbi ayyb)
NEU Hanes Eisteddfod Bentref neu Gapel nad yw'n bod mwyach **£10.00**

9. **Adolygiad** o unrhyw nofel Gymraeg a gyhoeddwyd yn 2023/24 **£10.00**

10. **Tlws yr Ifanc (Cerddorol) -** i rai dan 21 oed:

Cyfansoddi darn cerddorol lleisiol neu offerynnol.

Beirniad: Trystan Lewis

*Y gwobrau yn rhoddedig gan Aaron ac Ashley Stephens* **Tlws a £20.00**

***Gwobrwyir enillydd Tlws yr Ifanc ar y nos Wener***

*Er mwyn cydymffurfio gyda'r Ddeddf Rheoli a Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) mae'n ddyletswydd i sicrhau y bydd unrhyw fanylion sydd gennym ar eich cyfer (enw, cyfeiriad, rhif ffôn, ebost), yn cael ei gadw'n gyfrinachol. Mae hyn yn cynnwys cystadleuwyr, beirniaid a chyfeilyddion. Os ydych chi'n dymuno i ni ddileu eich manylion o'n cofnodion, cysylltwch.*

**Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniadau'r sefydliadau a'r unigolion canlynol:**

***Cyngor Cymuned Trefeurig***

***Cyngor Sir Ceredigion***

***Ben Lake AS***

***Cyfarwyddwyr Angladdau DJ Evans***

***Diolch hefyd i holl garedigion yr Eisteddfod am bob cyfraniad, cymorth a chefnogaeth***

## Cofia'n Gwlad

Cofia'n gwlad, Benllywydd tirion,
Dy gyfiawnder fyddo'i grym:
Cadw hi rhag llid gelynion,
Rhag ei beiau'n fwy na dim:
Rhag pob brad, nefol Dad,
Taena d'adain dros ein gwlad.

**Elfed**

**Dyddiad Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2025: 4-5 Ebrill**

# Nodiadau

*Diolch i Lois Williams (Cymdeithas Eisteddfodau Cymru) ac Ysgol Gynradd Penrhyn-coch am eu cymorth yn dylunio a pharatoi copïau o'r rhaglen hon.*